# Cynhadledd yr Hydref 2012

## Aberhonddu

## 13 Hydref 2012



Welsh Liberal Democrats
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

# Croeso



Annwyl Ffrindiau,

Mae'n bleser mawr eich croesawu i fy nhref enedigol o Aberhonddu am Gynhadledd yr Hydref Democratiaid Rhyddfrydol Cymru 2012.

Mae wedi bod yn dipyn o flwyddyn heriol i ni fel plaid ond mae’r gynhadledd hon yn mynd i fod yn gyfle i aelodau ddod at eu gilydd, cynnig a thrafod polisiau radical a fydd yn darparu llwyfan cryf ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn 2016.

Wrth i chi daro golwg drwy y canllaw hwn, byddwch yn gweld bod y fformat Gynhadledd yr Hydref wedi newid. Mae'r penwythnos wedi cael ei gynllunio i sicrhau bod aelodau, y bobl sy'n gwneud y blaid hon yr hyn ydyw, yn cael hyd yn oed mwy o gyfleoedd i holi, i ddysgu ac i lunio polisiau’r blaid.

Bydd hefyd yn gyfle i aelodau i edrych yn ôl ar yr ymgyrch etholiad lleol, dysgu gwersi a datblygu sgiliau ymgyrchu newydd a fydd yn ein rhoi mewn sefyllfa dda i ymgymryd â'r heriau sydd o'n blaenau.

Ac fel erioed, bydd hwn yn gyfle i ddal i fyny gyda hen ffrindiau a ffurfio bondiau newydd gyda Democratiaid Rhyddfrydol o bob rhan o Gymru.

Gobeithio cewch cynhadledd dda,

Kirsty Williams AC
Arweinydd, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

# Cynnwys

**Amserlen y Gynhadledd** 4

**Gwybodaeth**
- Lleoliad y Gynhadledd 8
- Teithio 9
- Diogelwch 10
- Cofrestru 12
- Gwybodaeth am y Cynigion 14
- Siarad yn y Gynhadledd 17
- Trefn y Ddadl a Phleidleisio 19
- Cynigion Trefniadol 20

**Busnes y Blaid** 21

**Polisi** 27

**Ymgyrchu** 33

**Digwyddiadau Gyda'r Nos** 35

**Rheolau Sefydlog** 36

# Amserlen y Gynhadledd

Bydd Cynhadledd yr Hydref 2012 yn cymryd fformat gwahanol i Gynadleddau y gorffennol.

Bydd tri ffrwd yn rhedeg ochr yn ochr drwy gydol y dydd. Y rhain fydd:

**Busnes y Blaid** a fydd yn cynnwys cyfle i aelodau i ofyn cwestiynau i bwyllgorau'r Blaid, yn trafod cynigion ar fusnes mewnol y Blaid, ac mae'n gorffen gyda chyfle i holi Llywydd y Blaid Ffederal, Tim Farron AS ac Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams AC.

**Polisi** sy'n cynnwys tair sesiwn ymgynghori a chynigion polisi. Bydd hwn yn gyfle i aelodau i gyfrannu at y trafodaethau polisi wrth i ni ddechrau paratoi ar gyfer y rownd nesaf o faniffestos etholiad. Bydd hefyd fforwm polisi addysg arbennig ar ddydd Sul.

**Ymgyrchu** sy'n dechrau gyda sesiwn adborth ar yr adolygiad o etholiadau y cyngor 2012 ac yn parhau gyda hyfforddiant ar sut i fod yn wrthblaid effeithiol.

Gall Aelodau'r Blaid sy'n mynychu'r Gynhadledd naill ai ddewis i aros gydag un ffrwd trwy gydol y dydd neu symud rhwng y gwahanol elfennau. Er mwyn eich helpu i benderfynu eich amserlen, mae yna amserlen gryno yn ymddangos ar y tudalennau nesaf. Mae mwy o fanylion am bob ffrwd yn ymddangos yn ddiweddarach yn y Canllaw.

Yn ogystal ag elfennau ffurfiol y Gynhadledd fydd Cinio'r Gynhadledd, gyda'r siaradwr gwadd Tim Farron AS, yn digwydd ar y nos Sadwrn. Fydd Plaid Leol Brycheiniog a Sir Faesyfed hefyd yn cynnal Soiree Caws a Gwin ar y nos Wener.

# Amserlen y Gynhadledd

| Amser | Busnes y Blaid | Polisi | Ymgyrchu (Aelodau yn Unig) |
|---|---|---|---|
| 10:00 | Neuadd y Gynhadledd **Agoriad y Gynhadledd gan Llywydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Christine Humphreys Dilynir gan Araith gan y Farwnes Jenny Randerson, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol, Swyddfa Cymru** | | |
| 10:20 | | Lolfa Preswylwyr **Ymgynghoriad Polisi: Moderneiddio ein Economi** | Neuadd y Gynhadledd **Swsiwn Adborth Etholiadau 2012** |
| 11:20 | Neuadd y Gynhadledd **Cwestiynau ar Adroddiadau gan Bwyllgorau'r Blaid Gymreig a Phwyllgorau Ffederal** | | Ystafell Crug **Meddygfa Cyngor Ymgyrchoedd gyda Jon Aylwin (Penaeth Ymgyrchoed Dem Rhydd Cymru) a Mike Bell (CCDRh)** |
| 12:05 | | | Ystafell Crug **Recriwtio a Chadw eich Aelodau** |

# Amserlen y Gynhadledd

| Amser | Busnes y Blaid | Polisi | Ymgyrchu (Aelodau yn Unig) |
|---|---|---|---|
| 13:15 | Lolfa Preswylwyr<br>**Cyfarfod Blynyddol Ieuenctid Rhyddfrydol Cymru**<br>(Aelodau yn Unig) | Neuadd y Gynhadledd<br>**Ymgynghoriad Polisi: Dyfodol ein Gofal Iechyd** | Ystafell Crug<br>**Adeiladu i Ennill** |
| 14:15 | Neuadd y Gynhadledd<br>**Cwestiynau ar Adroddiadau gan Grwpiau'r Blaid yn Senedd y DU a'r Cynulliad Cenedlaethol** | Lolfa Preswylwyr<br>**Ymgynghoriad Polisi: Anghydraddoldeb** | Ystafell Crug<br>**Sut i for yn Wrthblaid Effeithiol ar y Cyngor** |
| 14:45 | Neuadd y Gynhadledd<br>**Cynigion Busnes: Ffioedd Cynhadledd 2013**<br>**Rheolau Dethol Ymgeiswyr** | | |

| Amser | Busnes y Blaid | Polisi | Ymgyrchu (Aelodau yn Unig) |
|---|---|---|---|
| 15:05 | | Neuadd y Gynhadledd **Cynnig Polisi: Gwasanaethau Caplaniaeth Ysbytai Cynnig Amserol neu Brys** | Ystafell Crug **PARHAD... Sut i for yn Wrthblaid Effeithiol ar y Cyngor** |
| 15:45 | Neuadd y Gynhadledd **Sesiwn Holi & Ateb gyda Tim Farron AS a Kirsty Williams AC** | | |
| 16:30 | | Neuadd y Gynhadledd **Cynnig Polisi: Ynni Adnewyddadwy** | Ystafell Crug **Adeiladu eich Rhwydwaith Darparu** |
| 17:00 | Neuadd y Gynhadledd **Araith gan Kirsty Williams AC, Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Cyflwynwyd gan Bablin Molik, Ymgeisydd Is-Etholiad De Caerdydd a Phenarth** | | |

# Gwybodaeth

## Lleoliad y Gynhadledd

**Lleoliad**
Y lleoliad ar gyfer y Gynhadledd yw Gwesty Castell Aberhonddu, Sgwar y Castell, Aberhonddu, LD3 9DB.

**Desg Gofrestru**
Gellir dod o hyd i'r Ddesg Gofrestru ger y prif fynedfa.

**Dosbarthu Llenyddiaeth**
Byddwch yn ymwybodol na chaniateir dosbarthu llenyddiaeth yn y gynhadledd heb gymeradwyaeth ymlaen llaw gan Gadeirydd Pwyllgor y Gynhadledd.

**Ysmygu**
Mae ysmygu yn y Gynhadledd yn anghyfreithlon.

**Ystafell Gotiau**
Ni fydd cyfleustera ystafell gotiau ar gael. Ni fydd bagiau mawr yn cael eu caniatau i mewn i leoliad y Gynhadledd.

**Allanfeydd Argyfwng**
Mae nifer o allanfeydd argyfwng y tu mewn i'r lleoliad. A wnewch chi sicrhau eich bod yn ymwybodol o'ch allanfa agosaf bob amser.

**Ffotograffiaeth Fflach**
Dylai pawb sydd a thueddiad at epilepsi nodi gallai ffotograffiaeth fflach gael ei defnyddio yn Neuadd y Gynhadledd.

**Eiddo Coll**
Dylai pob item a eiddo coll gael eu rhoi i mewn a'i ail-hawlio wrth y Ddesg Gofrestru.

# Lleoliad y Gynhadledd

**Ffonau symudol**
A wnewch chi sicrhau bod pob ffon symudol wedi'i ddiffodd cyn mynd i mewn i Neuadd y Gynhadledd, ystafelloedd ymylol a sesiynau hyfforddi.

**Lluniaeth**
Gellir prynu lluniaeth ysgafn o far y gwesty. Mae yna fwyty ar gael yn y lleoliad hefyd.

# Teithio

Lleolir y Gynhadledd yng Nghanol tref Aberhonddu.

Mae'n ¾ milltir o cyffordd A40 / A470 ar ffordd osgoi'r dref, a dim ond 35 munud gyrru o orsafoedd trên yn y Fenni neu Ferthyr Tudful.

Mae'r orsaf fysiau y dref yn 5 munud hawdd ar droed o'r lleoliad.

# Gwybodaeth

## Diogelwch

Gan fod Democratiaid Rhyddfrydol yn ran o Lywodraeth y DU roedd diogelwch yn dynnach nag arfer yng Nghynhadledd y Gwanwyn llynedd. Bydd llawer o'r gweithdrefnau newydd hefyd yn eu lle ar gyfer Gynhadledd y Gwanwyn hyn.

Mae Pwyllgor y Gynhadledd yn gofyn i bawb sy'n mynychu'r Gynhadledd i weithio gyda ni er mwyn diogelu'r Gynhadledd. Mae cydymffurfio â'r gweithdrefnau diogelwch yn amod mynediad i'r Gynhadledd.

**Bathodynnau Cynhadledd**
Mae'n rhaid gwisgo Bathodynnau'r Gynhadledd yng Nghanolfan y Gynhadledd ar y Dydd Sadwrn a Dydd Sul. Ni fydd angen Bathodynnau'r Gynhadledd ar y nos Wener.

Os ydych wedi cofrestru ymlaen llaw gallwch gasglu eich Bathodyn Cynhadledd oddi wrth y ddesg gofrestru ar ôl cyrraedd ar y Dydd Sadwrn neu Dydd Sul. Rhaid i chi ddod â'ch llythyr/e-bost cadarnhau cofrestru ac ID ffotograffig gyda chi i gasglu eich Bathodyn Gynhadledd. Efallai na fyddwch yn gallu derbyn eich Bathodyn Cynhadledd os nad oes gennych y ddau o'r rhain. Os nad ydych wedi derbyn eich llythyr cadarnhad o fewn pythefnos o gofrestru, neu dri diwrnod cyn y gynhadledd, cysylltwch â 029 2031 3400 i gadarnhau bod eich cofrestriad wedi ei dderbyn a'i brosesu.

Os nad ydych wedi cofrestru ymlaen llaw bydd eich Bathodyn Gynhadledd yn cael ei baratoi pan fyddwch yn cofrestru ar y diwrnod.

# Diogelwch

Bydd bathodynnau newydd ond yn cael eu paratoi yn ôl disgresiwn Cadeirydd Pwyllgor y Gynhadledd. Bydd ffi o £10 ar gyfer bathodynnau newydd.

**ID Ffotograffig**
Bydd y mathau canlynol o ID ffotograffig yn cael eu derbyn ar y diwrnod:
- Pasport (byddwn yn derbyn pasbortau sydd wedi dod i
- ben)
- Trwydded yrru ffotograffig
- Cerdyn ID myfyrwyr ffotograffig dilys
- CitizenCard
- ID Lluoedd Arfog

Os nad oes gennych unrhyw un o'r ID ffotograffig uchod byddwn yn derbyn dau o'r canlynol yn lle:
- ID di-ffotograffig
- Tystysgrif geni
- Cerdyn banc wedi'i lofnodi
- Bil cyfleustodau
- Cyfriflen banc
- Slip cyflog
- Cerdyn ID myfyrwyr di-ffotograffig dilys
- Cerdyn Yswiriant Gwladol
- Chwiliadau Diogelwch

**Chwiliadau Diogelwch**
Ar adegau, fe fydd chwiliadau diogelwch 'arddull maes awyr' ar waith yn y lleoliad. Bydd pawb sy'n mynychu'r Gynhadledd ar yr adegau hyn yn ddarostyngedig i chwiliadau o'r fath.

# Gwybodaeth

## Cofrestru

**Y Ddesg Gofrestru**
Gellir dod o hyd i'r Ddesg Gofrestru ger prif fynedfa'r gwesty.
Dydd Sadwrn 13 Hydref: 09:00 – 17:00

**Cofrestru Ymlaen Llaw**
Gall pawb gofrestru arlein wrth ymweld a www.DemRhyddCymru.org.uk. Gallwch gofrestru arlein hyd at ddydd Mawrth 9 Hydref.

Gall aelodau'r Blaid ac Arsyllwyr hefyd gofrestru drwy'r post. Gallwch lawrlwytho ffurflen gofrestru oddi ar y wefan neu wrth wneud cais drwy ffonio 029 2031 3400. Gallwch gofrestru o flaen llaw drwy'r post tan ddydd Gwener 5 Hydref.

Fydd pawn sy'n cofrestru arlein yn derbyn e-bost cadarnhad. Byddwn yn ymdrechu i anfon llythyr cadarnhad i bawb sydd wedi cofrestru drwy'r post. Os nad ydych wedi derbyn eich llythyr cadarnhad o fewn pythefnos o gofrestru, neu dri diwrnod cyn y gynhadledd, cysylltwch â 029 2031 3400 i gadarnhau bod eich cofrestriad wedi ei dderbyn a'i brosesu.

Bydd angen eich llythyr/e-bost cadarnhau ac ID ffotograffig pan fyddwch yn casglu eich Bathodyn Gynhadledd. Os nad oes gennych eich llythyr cadarnhad efallai na fyddwch yn gallu derbyn eich Bathodyn Cynhadledd oni bai eich bod wedi rhoi gwybod i ni nad ydych wedi derbyn y llythyr.

# Cofrestru

**Cofrestru ar y Dydd**
Gallwch gofrestru ar gyfer y Gynhadledd ar y diwrnod.

Os ydych yn cofrestru ar y dydd bydd angen i chi ddod â'r ffi cofrestru priodol ac ID ffotograffig gyda chi. Am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at dudalen 11. Gallwch hefyd arbed amser ar y diwrnod drwy lenwi ffurflen gofrestru ymlaen llaw a gwneud yn siwr bod gennych yr arian cywir neu siec wedi ysgrifennu yn barod pan fyddwch yn cyrraedd y Ddesg Gofrestru. Gallwch lawrlwytho ffurflen gofrestru oddi ar wefan y blaid www.DemRhyddCymru.org.uk.

# Gwybodaeth

## Gwybodaeth am y Cynigion

**Iaith y Cynigion**
Mae pob cynnig sy'n ymddangos yn y Canllaw hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gan fod yr holl gynigion wedi eu cyflwyno yn wreiddiol yn Saesneg, os oes anghysondeb rhwng yr ieithoedd, bydd y fersiwn Saesneg yn cael y flaenoriaeth.

**Gwelliannau i Gynigion**
Gall pob cynnig sydd yn ymddangos yn y Canllaw hwn gael ei wella. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwelliannau yw canol-dydd ar Dydd Mercher 3 Hydref. Dylid e-bostio gwelliannau i Policy.Officer@WelshLibDems.org.uk.

Gall gwelliannau gael eu cyflwyno gan Pleidiau Lleol, Pwyllgor y Blaid Cymreig sy'n gyfrifol am y mater a godwyd yn y cynnig, Grwp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol neu yn Senedd y DU, neu 20 Cynrychiolwyr i'r Gynhadledd.

Bydd yr holl welliannau a dderbynwyd ar gyfer dadl yn cael eu cyhoeddi yn Cyhoeddiadau'r Gynhadledd a fydd ar gael ar wefan y Blaid www.WelshLibDems.org.uk yn ystod yr wythnos cyn y Gynhadledd ac o'r Ddesg Gofrestru yn y Gynhadledd.

# Gwybodaeth am y Cynigion

**Cynigion Amserol**
Cynigion Amserol yw cynigion polisi neu busnes sy'n seiliedig ar ddigwyddiad sy'n digwydd ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynigion polisi h.y. 22 Awst.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Cynigion Amserol yw canol dydd ar Dydd Mercher 3 Hydref.

Gall Cynigion Amserol gael eu cyflwyno gan Bleidiau Lleol, Pwyllgor y Blaid Cymreig sy'n gyfrifol am y fater a godwyd yn y cynnig, y Grwp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru neu yn Senedd y DU, neu 20 Cynrychiolydd i'r Cynhadledd.

Fydd pob Cynnig Amserol a derbynwyd ar gyfer dadl yn cael eu cyhoeddi yn Cyhoeddiadau'r Gynhadledd a fydd ar gael ar wefan y blaid www.WelshLibDems.org.uk yn ystod yr wythnos cyn y Gynhadledd ac o'r Ddesg Gofrestru yn y Gynhadledd.

Gall Cynigion Amserol a gyhoeddwyd yn Nghyhoeddiadau'r Gynhadledd gael eu gwella. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno gwelliant i Gynnig Amserol yw 12:00 ar Dydd Sadwrn 13 Hydref.

Dylai gwelliannau gael eu e-bostio at Policy.Officer@WelshLibDems.org.uk neu ei roi i'r Swyddog Polisi neu Gadeirydd Pwyllgor y Gynhadledd ar ffurf copi caled.

# Gwybodaeth

## Gwybodaeth am y Cynigion

**Cynigion Brys**
Cynigion brys yw cynigion sy'n ymwneud â digwyddiad sy'n digwydd ar ôl y dyddiad cau ar gyfer Cynigion Amserol. Dylai Cynigion Brys fod yn gryno.

Gall Cynigion Brys gael eu cyflwyno gan Bleidiau Lleol, Pwyllgor y Blaid Cymreig sy'n gyfrifol am y fater a godwyd yn y cynnig, y Grwp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru neu yn Senedd y DU, neu 20 Cynrychiolydd Cynhadledd.

Mae dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Cynigion Brys yn dibynnu ar amseru pwnc y cynnig. Ar gyfer digwyddiadau sy'n digwydd cyn dechrau'r Gynhadledd y dyddiad cau yw dechrau'r Gynhadledd h.y. 10:00 ar Dydd Sadwrn 13 Hydref. Ar gyfer digwyddiadau sy'n digwydd yn ystod y Gynhadledd y dyddiad cau yw tair awr cyn y slot yn yr agenda ar gyfer Cynigion Brys.

Wrth gyflwyno Cynnig Brys mae rhaid nodi'n glir enwau'r bobl a fydd yn symud a chrynhoi'r cynnig. Os na fydd hyn yn digwydd ni fydd y Pwyllgor y Gynhadledd yn derbyn y Cynnig Brys.

# Siarad yn y Gynhadledd

**Pwy all siarad?**
Gall Aelodau'r Blaid sydd wedi cofrestru fel aelod pleidleisio neu aelod heb bleidlais siarad mewn unrhyw ddadl, sesiwn ymgynghori neu ofyn cwestiynau i adroddiadau. Gall Arsylwyr Cofrestredig siarad mewn sesiwn ymgynghori gyda chaniatâd careirydd y sesiwn a gyda chaniatâd Pwyllgor y Gynhadledd yn ystod dadlau ar cynigion. Gall Arsylwyr hefyd ofyn cwestiynau yn ystod y sesiwn Holi ac Ateb gyda Kirsty Williams AC a Tim Farron AS ond ni allant ofyn cwestiynau ar adroddiadau mewnol y Blaid.

**Hyd Areithiau**
Ym mhob dadl ar gynnig caniateir 5 munud i Gynigwyr y Cynnig, 4 munud i Gynigwyr Gwelliannau a 3 munud i bob siaradwr arall, yn cynnwys Crynhoiwyr Cynigion a Gwelliannau. Gall y Cadeirydd leihau yr amseroedd hyn i ganiatau mwy o aelodau i siarad mewn dadl. Os byddant yn gwneud hyn byddant yn cyhoeddi'r newid yn ystod y ddadl. Os ydych chi'n siarad a bod y Cadeirydd yn gofyn i chi ddod â'ch araith i ben, bydd yn rhaid i chi orffen yn brydlon.

Yn ystod Sesiynau Ymgynghori, bydd y person sy'n cyflwyno'r ddogfen ymgynghori yn cael 5 munud i siarad a bydd pawb arall yn cael 3 munud. Gall y Cadeirydd y sesiwn newid hyn i ganiatáu dadl lawn a phriodol.

Wrth ofyn cwestiynau ar adroddiadau neu yn ystod y sesiwn holi ac ateb  cadwch eich cwestiynau yn fyr a chryno os gwelwch yn dda.

# Gwybodaeth

## Siarad yn y Gynhadledd

**Sut i fynd ati i siarad**
Dylai unrhyw un sydd am siarad mewn dadl lenwi cerdyn siaradwr a'i chyflwyno i Fwrdd y Siaradwyr ac aros i weld a ydynt yn cael eu galw yn y ddadl. Dylai cerdyn wahânol gael ei llenwi ar gyfer pob dadl. Mae cardiau Siaradwyr ar gael o Fwrdd y Siaradwyr a stiwardiaid yn yr awditoriwm. Gellir hefyd eu casglu oddi wrth y Ddesg Gofrestru.

**Cwblhau Cardiau Siaradwyr**
Mae tri phwynt allweddol i'w cofio i wneud y gorau eich siawns o gael eich galw:

1. Cyflwynwch eich cerdyn ymhell ymlaen llaw. Os yw eich cerdyn wrth law yn hwyr mewn dadl poblogaidd, ni fydd llawer o siawns i gael siarad. Mae'r tîm cadeirio ar gyfer y ddadl yn cwrdd ymlaen llaw i gynllunio'r ddadl.
2. Llenwch eich cerdyn yn gyfan. Yr ail gamgymeriad mae darpar siaradwyr yn ei wneud yw hanner llenwi eu cerdyn. Yn ogystal â'r wybodaeth ar flaen y cerdyn (enw, plaid leol, o blaid neu yn erbyn y cynnig, ac ati), mae yna ddwy adran ar y cefn, ar gyfer cefndir perthnasol (proffesiynol neu brofiad defnyddiol, cefndir yn y blaid, ac ati) ac ar gyfer amlinelliad byr o'r hyn yr ydych yn mynd i ddweud.
3. Gwneud yn siwr ei fod yn ddarllenadwy! Peidiwch â chymryd hyn fel gwahoddiad i lenwi pob centimetr sgwâr o'r cerdyn, a pheidiwch ag ysgrifennu yn annarllenadwy, neu mewn llythrennau bach iawn, neu mewn inc gwyrdd.

# Trefn y Ddadl

Yn gyffredinol, fydd Cynigion yn cael eu hystyried yn y modd canlynol:

1. Cynigydd y Cynnig.
2. Bydd cynigwyr unrhyw welliannau yn siarad yn eu tro.
3. Bydd siaradwyr yn cael eu galw a fydd y Cadeirydd yn ceisio sicrhau cydbwysedd.
4. Bydd crynhoiwyr y gwelliannau yn siarad yn eu tro.
5. Bydd crynhoiwr y cynnig yn siarad.
6. Bydd y Cadeirydd yn cymryd pleidlais ar y gwelliannau a phleidleisiau ar wahan (os o gwbl) yn eu tro - o blaid ac yn erbyn.
7. Cynhelir pleidlais ar y cynnig yn ei gyfanrwydd.

# Pleidleisio

Dim ond Aelodau Pleidleisio fydd yn gallu pleidleisio. Fydd Aelodau Pleidleisio gyda "Pleidleisio" ar gefn eu Bathodyn Cynhadledd.

Os ydych yn dymuno pleidleisio mewn dadl mae rhaid i chi fod yn Neuadd y Gynhadledd erbyn diwedd araith crynhoiwr y cynnig oherwydd ni fydd neb yn cael mynd i mewn i'r neuadd unwaith y bydd y pleidleisio wedi cychwyn.

I bleidleisio, dylech for yn eistedd a dal eich Bathodyn Cynhadledd yn yr awyr, gyda'r ochr "Pleidleisio" yn wynebu'r Cadeirydd.

Dilynwch gyfarwyddiadau y Cadeirydd ar y pryd i bleidleisio. Efallai y gofynnir i chi gadw eich Bathodyn Cynhadledd yn yr awyr am amser i sicrhau y gall yr holl bleidleisiau cael eu cyfri.

# Gwybodaeth

## Cynigion Trefniadol

Mae Cynigion Trefniadol yn ymwneud â gweithdrefn y Gynhadledd:
**Cyfeirio yn ôl** - rhoi'r gorau i ddadlau ar Gynnig ac anfon y Cynnig yn ol ar gyfer mwy o waith.
**Busnes Nesaf** - i roi'r gorau i drafod a symud at yr eitem nesaf.
**Atal Rheolau Sefydlog** - i godi un neu fwy o'r rheolau sy'n rheoli gweithrediad y Gynhadledd.

Gall Cynigion Trefniadol gael eu cyflwyno gan unrhyw aelod pleidleisio yn ysgrifenedig ynghyd â datganiad o resymau hyt at 75 o eiriau neu lai.

Bydd y pleidleisiau yn cael eu cymryd yn yr un ffordd ag ar gyfer Cynigion a Gwelliannau, ac eithrio nid oes pwynt torri i ffwrdd i fod yn Neuadd y Gynhadledd ar gyfer y bleidlais ar p'un ai i gael dadl-Fach. Mae penderfyniadau ar cynigion trefniadol yn cael eu gwneud gan fwyafrif syml o’r rhai sy'n pleidleisio.

Yn gyffredinol fydd Cynigion Trefniadol yn cael eu hystyried yn y modd canlynol:

1. Gall unrhyw Aelod bleidleisio gynnig Cynnig Trefniadol yn ysgrifenedig cyn diwedd dadl ar y Cynnig
2. Mae'r Cadeirydd yn darllen y datganiad ysgrifenedig o blaid y cynnig trefniadol
3. Fydd pleidlais yn cael ei gymryd ar p'un a fydd dadl-fach ar y cynnig Trefniadol.

Os y penderfyniad yw i gael dadl-fach:

4. Gall gynigydd y cynnig trefniadol siarad
5. Gall rhywun sy’n gwrthwynebu'r Cynnig Trefniadol siarad
6. Gall siaradwyr eraill gael eu galw i siarad.
7. Cynhelir pleidlais ar y Cynnig Trefniadol

Mae'r sesiynau hyn yn delio â busnes mewnol y Blaid. Mae hyn yn cynnwys cyfle i ofyn cwestiynau am waith y Blaid dros y flwyddyn ddiwethaf a dadlau a phleidleisio ar gynigion sy'n ymdrin â rheolau gweithredu'r Blaid.

**11:20-12:05**
Neuadd y Gynhadledd

## Cwestiynau ar yr Adroddiadau gan Bwyllgorau'r Blaid Gymreig

## Cwestiynau ar yr Adroddiadau gan Gynrychiolwyr y Blaid i Bwyllgorau Ffederal

Bydd yr Adroddiadau yn cael eu cyhoeddi yn Cyhoeddiadau'r Gynhadledd ac ar gael i aelodau'r Blaid wrth iddynt gyrraedd yn y Gynhadledd.

Bydd Aelodau'r Blaid yn gallu gofyn cwestiynau ar yr Adroddiadau o'r llawr yn ystod y sesiwn.

**13:15-14:15**
Lolfa Preswylwyr

## Cyfarfod Blynyddol Ieuenctid Rhyddfrydol Cymru

(Aelodau yn Unig)

Mae holl aelodau'r Blaid yn cael eu gwahodd i ymuno â'r cyfarfod i drafod gwaith Ieuenctid Rhyddfrydol Cymru yn ystod 2013.

# Busnes y Blaid

**14:15-14:45**
Neuadd y Gynhadledd

## Cwestiynau ar yr Adroddiad gan y Grwp y Blaid Cymreig yn Senedd y Deyrnas Unedig

## Cwestiynau ar yr Adroddiad gan y Grwp y Blaid Cymreig yn y Cynulliad Cenedlaethol

Bydd yr Adroddiadau yn cael eu cyhoeddi yn Cyhoeddiadau'r Gynhadledd ac ar gael i aelodau'r Blaid wrth iddynt gyrraedd yn y Gynhadledd.

Bydd Aelodau'r Blaid yn gallu gofyn cwestiynau ar yr Adroddiadau o'r llawr yn ystod y sesiwn.

**14:45-15:05**
Neuadd y Gynhadledd

## Cynnig Busnes:
## Ffioedd Cynhadledd 2013

Mae'r Gynhadledd yn Nodi:
1. Bod o wedi'i gytuno yng Nghynhadledd yr Hydref 2010 y byddai'r cyfraddau ar gyfer Ffioedd Cofrestru Aelodau yn cael eu dwyn yn flynyddol i Gynhadledd yr Hydref i gytuno ar y ffioedd ar gyfer y flwyddyn galendr sy'n dilyn.
2. Yn 2012, y cyfraddau ar gyfer Aelodaeth Sylfaenol ar gyfer mynychu'r Gynhadledd oedd:
    - hyd at wyth wythnos o'r Gynhadledd: £30

- hyd at bedair wythnos o'r Gynhadledd: £35
- hyd at wythnos o flaen y Gynhadledd: £40
- wythnos cyn ac yn y Gynhadledd: £50

3. Yn 2012, y cyfraddau ar gyfer Aelodaeth Ratach ar gyfer mynychu'r Gynhadledd oedd:
   - hyd at wyth wythnos o'r Gynhadledd: £5
   - hyd at bedair wythnos o'r Gynhadledd: £10
   - hyd at wythnos o flaen y Gynhadledd: £15
   - wythnos cyn ac yn y Gynhadledd: £20
4. Bod, yn ychwanegol at y cyfraddau uchod, disgownt o 50% ar y cyfraddau uchod ar gael i unrhyw aelod oedd yn mynychu'u Cynhadledd gyntaf.

Mae'r Gynhadledd yn Credu:

a. Y dylai Pwyllgor Cynhadledd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru barhau i ymdrechu i ddarparu'r gwerth gorau am arian wrth drefnu Cynadleddau.
b. Y dylai'r Ffioedd Cofrestru i Aelodau gael eu gosod ar gyfradd sy'n sicrhau bod y costau o drefnu'r Gynhadledd yn cael eu talu ond eu bod hefyd yn annog aelodau i fynychu'r Gynhadledd.
c. Y dylai Pwyllgor Cynhadledd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru gael y rhyddid i amrywio'r Ffioedd Cofrestru i Aelodau i gymryd i ystyriaeth y gost o drefnu Cynhadledd, ond y dylai'r Gynhadledd osod uchafswm y Ffioedd.

Mae'r Gynhadledd yn Penderfynu:

i. Y bydd y strwythur ar gyfer Ffioedd Cofrestru i Aelodau heb ei newid o 2012.
ii. Fe fydd Ffioedd Cofrestru i Aelodau 2012 y Ffioedd uchaf ar gyfer 2013.

# Busnes y Blaid

**14:45-15:05**
Neuadd y Gynhadledd

## Cynnig Busnes:
## Rheolau Dethol Ymgeiswyr

Mae'r Gynhadledd yn Nodi:
1. Bod y Pwyllgor Ymgyrchoedd ac Ymgeiswyr wedi comisiynu adolygiad o holl Reolau Dethol Ymgeiswyr y Blaid yng Nghymru ym mis Mai 2011.
2. Bod yr adolygiad o Reolau Dethol bellach wedi'i gwblhau, a bod rheolau newydd ar gyfer Dethol ymgeiswyr ar gyfer San Steffan, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd Ewrop, Meiri wedi'u Hethol yn Uniongyrchol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wedi'u cynhyrchu.
3. Mae ar y rheolau newydd hyn angen eu cadarnhau gan y Gynhadledd.

Mae'r Gynhadledd yn Penderfynu cadarnhau a chefnogi'r Rheolau Dethol Ymgeiswyr newydd a gynhwysir yn y llyfryn cysylltiedig, "Candidate Selection Rules – Autumn 2012".

*Dylech fod yn ymwybodol bod copi llawn o'r rheolau newydd yn ogystal â nodyn eglurhaol ategol ar gael ar wefan y Blaid ac wrth y Ddesg Gofrestru.*

**15:45-16:30**
Neuadd y Gynhadledd

## Sesiwn Holi ac Ymateb: Kirsty Williams AC, Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Tim Farron AS, Llywydd y Blaid Ffederal

Mae hwn yn gyfle i Aelodau'r Blaid ofyn cwestiynau i Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru a Llywydd y Blaid Ffederal ynglyn â dyfodol y Democratiaid Rhyddfrydol.

Yn y Democratiaid Rhyddfrydol Cymru mae polisi'r Blaid yn cael ei ffurfio gan yr aelodau, ac mae pob aelod yn cael cyfle i gyfrannu at y broses. Yn y sesiynau Polisi ceir sesiynau ymgynghori lle gall aelodau roi eu barn ar feysydd pwnc eang. Bydd y syniadau a ddygwyd ymlaen yma yn cael ei datblygu i gynigion polisi gan y Pwyllgor Polisi. Bydd cynigion polisi a ddygwyd ymlaen gan aelodau'r Blaid hefyd yn cael eu trafod ac yn cael ei pleidleisio ar. Os caiff y cynigion eu pasio byddant yn dod yn bolisi'r Blaid.

**10:20-11:20**
Lolfa Preswylwyr

## Ymgynghoriad Polisi: Moderneiddio ein Economi

**Cadair: Eluned Parrott AC,**
**Gweinidog yr Wrthblaid dros yr Economi**

Adeiladu economi Gymreig fodern drwy drafod pa fath o economi ydym yn dymuno ar gyfer Cymru a sut y gallwn wella'r ffordd y caiff Cymru ei hyrwyddo dramor.

# Polisi

**13:15-14:15**
Neuadd y Gynhadledd

## Ymgynghoriad Polisi: Dyfodol ein Gofal Iechyd

**Cadair: Kirsty Williams AC,**
**Arweinydd a Gweinidog yr Wrthblaid dros Iechyd**

Gwella ansawdd ein GIG pan fo arian yn dynn a'r boblogaeth yn heneiddio. Byddwn hefyd yn edrych ar ddyfodol gofal ataliol a chymunedol.

**14:15-15:05**
Lolfa Preswylwyr

## Ymgynghoriad Polisi: Anghydraddoldeb

**Cadair: Peter Black AC,**
**Gweinidog yr Wrthblaid dros Gydraddoldeb**

Mynd i'r afael â gwreiddiau dwfn anghydraddoldeb yng Nghymru drwy edrych ar sut y gallwn sicrhau nad yw canlyniadau addysg a disgwyliadau oes yn seiliedig ar ble rydych yn byw neu pwy yw eich rhieni.

**15:05-15:45**
Neuadd y Gynhadledd

## Cynnig Polisi:
## Gwasanaethau Caplaniaeth Ysbytai

Mae'r Gynhadledd yn nodi:
1. Bod, ar hyn o bryd, gwasanaethau caplaniaeth ysbytai yng Nghymru'n cael eu hariannu gan fyrddau iechyd lleol.
2. Bod, mewn gwrthgyferbyniad, Gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru yn cael ei ariannu drwy ymddiriedolaeth elusennol.

Mae'r Gynhadledd yn credu:
a. Bod, i rai cleifion, gwasanaethau caplaniaeth ysbytai yn cynnig ffynhonnell bwysig o gysur a chefnogaeth ysbrydol.
b. Y dylai byrddau iechyd hwyluso gwasanaeth caplaniaeth.
c. Na ddylai cyllid ar gyfer caplaniaeth ddod o gyllideb iechyd sefydlog pan ellir defnyddio ffrydiau cyllido eraill.

Mae'r Gynhadledd yn penderfynu:
i. Dargyfeirio'r £1.3 miliwn sydd ar hyn o bryd yn cael ei wario bob blwyddyn ar wasanaeth caplaniaeth Cymru i wasanaethau iechyd rheng flaen.
ii. Gweithio gydag arweinwyr yr holl enwadau crefyddol yng Nghymru i sefydlu ymddiriedolaeth elusennol i ariannu gwasanaeth caplaniaeth ysbytai Cymru gyfan.

## Cynnig Amserol neu Brys

Gweler tudalen 15 i gael gwybod sut i gynnig Cynnig Amserol neu Brys. Bydd y cynnig yn cael ei wneud ar gael wrth y Ddesg Gofrestru cyn cychwyn y ddadl.

# Polisi

**16:30-17:00**
Neuadd y Gynhadledd

## Cynnig Polisi:
## Ynni Adnewyddadwy

Mae’r Gynhadledd yn Nodi bod:

1. Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi ymrwymo i leihau ôl troed ecolegol Cymru 75% erbyn 2050, ac i fod hanner ffordd tuag at gwtogi carbon o gynhyrchu ynni yng Nghymru erbyn yr un dyddiad.
2. Er mwyn cyrraedd y targedau hyn, mae angen cael buddsoddiad sylweddol yn natblygiad ffynonellau ynni adnewyddadwy yng Nghymru.  Mae gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru hanes balch o arwain yr agenda wleidyddol o ran ymagweddiadau arloesol tuag at gynhyrchu ynni adnewyddadwy.
3. Mae’r gwaith o ddatblygu ynni adnewyddadwy yng Nghymru wedi’i ganolbwyntio’n anghymesur ar ffermydd gwynt atraeth mawrion, sydd, yn eu tro, wedi’u canolbwyntio’n anghymesur yn ardaloedd gwledig Canolbarth a Gorllewin Cymru.
4. Mae yna bryder cyhoeddus eang ynghylch effaith gronnus ffermydd gwynt mawrion ar dirwedd nodedig y Gymru wledig a’r canlyniadau i dwristiaeth a bywyd gwyllt.

Mae’r Gynhadledd yn Credu bod:

a. Gorganolbwyntio ffermydd gwynt atraeth yng nghefn gwlad syfrdanol hardd Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cael effaith andwyol ar ansawdd olygfaol y dirwedd, ar ecoleg naturiol ac ar botensial economaidd twristiaeth.
b. Mae mesur Nodyn Cyngor Technegol 8 (TAN8) Llywodraeth Cymru yn fframwaith annigonol ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy yng Nghymru, gan nad yw’n rhoi ystyriaeth i

ddwysedd y datblygiadau o ffermydd gwynt a'u gwir effeithiau amgylcheddol ac economaidd.

c. Mae yna angen brys am strategaeth ynni newydd a chynhwysfawr i Gymru fydd yn gwneud defnydd o'r ystod lawn o ffynonellau ynni a thechnolegau sydd ar gael yng Nghymru i gyrraedd targedau ar gyfer lleihau carbon gan gymryd ystyriaeth lawn a chywir o'u heffaith ar yr amgylchedd a'r economi.

Mae'r Gynhadledd yn Galw ar:

i. Pwyllgor Polisi Democratiaid Rhyddfrydol Cymru i adolygu polisïau'r blaid ar ynni adnewyddadwy i ddatblygu cynllun gweithredu sy'n cymryd i ystyriaeth yr ystod lawn o ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sy'n berthnasol i ddatblygiad y sector.
ii. Ucheldiroedd Canolbarth a Gorllewin Cymru i gael eu diogelu rhag effaith weledol ac economaidd ddifrodus gorganolbwyntio ffermydd gwynt drwy gyfyngu ar ddatblygiadau newydd o ffermydd gwynt mawrion.
iii. Strategaethau arloesol i gael eu mabwysiadu i wneud defnydd o'r ystod lawn o ffynonellau ynni adnewyddadwy yng Nghymru, gan ostwng dibyniaeth Cymru ar danwydd sydd wedi'i seilio ar garbon ac ar wynt atraeth, fel ei gilydd.

# Polisi

**Fforwm Polisi Addysg**

Yn dilyn ymlaen o'n Cynhadledd yr Hydref, rydym yn cynnal Fforwm Polisi Addysg ar Ddydd Sul, 14 Hydref, rhwng 10yb a 4yp, hefyd yng Ngwesty'r Castell, Aberhonddu

Bydd ein Llefarydd Addysg yn y Cynulliad, Aled Roberts AC, yn cymryd yr awenau ar y diwrnod, a fydd yn dechrau am 10yb gyda sesiwn yn cynnwys tri gweithdy o dan y penawdau Ysgolion, Addysg Bellach ac Addysg Uwch.

Ar ôl cinio bydd y grwpiau’n dod at ei gilydd ar gyfer Cyfarfod Llawn, a gadeirir gan Aled, a fydd yn atgyfnerthu'r syniadau gan y grwpiau a hefyd yn cynnwys trafodaeth ehangach. Bydd canlyniadau'r Sesiwn Llawn yn ffurfio sail i bapur polisi i'w gyflwyno i Gynhadledd y Gwanwyn yn 2013.

Mae'r Fforwm yn rhad ac am ddim i fynychwyr y Gynhadledd ond i dalu am gostau ar gyfer y digwyddiad ar wahân, bydd angen codi ffi o £5 i'r rhai sydd yn mynychu ar y dydd Sul yn unig.

Byddai Aled yn fawr iawn yn croesawu barn yr aelodau sydd â diddordeb mewn cyfrannu at bolisi addysg Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn y dyfodol ac yn edrych ymlaen at eich gweld yno.

Os hoffech chi gofrestru eich presenoldeb ymlaen llaw ac archebu lle eich hun mewn i weithdy penodol, anfonwch e-bost jackie.radford@welshlibdems.org.uk

Thema'r sesiynau ymgyrchu fydd "Sut i fod yn Wrthblaid Effeithiol" ac mae'n cynnwys llawer o sesiynau rhyngweithiol sy'n cynnwys popeth sydd angen i chi ei wneud nawr er mwyn sicrhau llwyddiant yn y rownd nesaf o etholiadau.

**10:20-11:20**
Neuadd y Gynhadledd

## Sesiwn Adborth Etholiadau'r Cyngor 2012

Yn dilyn canlyniadau etholiadau mis Mai, penodwyd Dominic Hannigan, Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol, gan Kirsty Williams i adolygu perfformiad y blaid ac i wneud argymhellion ar gyfer y dyfodol. Mae Dominic wedi bod yn ceisio barn aelodau'r blaid a gweithredwyr drwy'r haf ac yn ystod y sesiwn hon bydd yn cyflwyno ei ganfyddiadau interim. Bydd hefyd yn gyfle i aelodau'r blaid i fwydo’n bellach i'r broses adolygu.

**11:20-12:05**
Ystafell Crug

## Meddygfa Cyngor Ymgyrchoedd

Sesiwn galw heibio ar gyfer unrhyw un sydd â ymholiad ymgyrchu neu fater yr hoffent help gyda. Jon Aylwin (Pennaeth Ymgyrchoedd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) a Mike Bell (CCDRh) fydd yn cymryd yr awenau.

**12:15-13:15**
Neuadd y Gynhadledd

## Recriwtio a chadw eich Aelodau

Mae'n amhosibl i recriwtio aelodau newydd ar hyn o bryd, cywir? Anghywir!
Yma cewch holl awgrymiadau a thriciau i helpu eich plaid leol i gadw aelodau presennol a recriwtio rhai newydd.

# Ymgyrchu

**13:15-14:15**
Ystafell Crug

## Adeiladu i Ennill

Sut i adeiladu eich ymgyrch i un sy'n gallu ennill yn yr etholiad nesaf - y Senedd, y Cynulliad neu'r Cyngor.

**14:15-15:45**
Ystafell Crug

## Sut i fod yn Wrthblaid Effeithiol ar y Cyngor

P'un a ydym gyda un cynghorydd, neu ni yw'r wrthblaid swyddogol, mae'r sesiwn hon yn angenrheidiol i unrhyw un sydd am ddwyn eu grwp rheoli i gyfrif, fod y cynghorydd gwrthblaid mwyaf effeithiol, neu gwneud y mwyaf o faterion ymgyrchu sy'n dod allan o siambr y cyngor.

**16:30-17:00**
Ystafell Crug

## Adeiladu Eich Rhwydwaith Darparu

P'un a ydych yn ei hoffi neu beidio, mae mwy o bapur trwy flychau yn ein helpu i adeiladu ein cefnogaeth. Bydd y sesiwn hon yn eich helpu i ddysgu sut i adeiladu rhwydwaith ddarparu felly nid oes rhaid i chi ddarparu popeth eich hun.

# Digwyddiadau Gyda'r Nos

**Nos Wener 19:30-22:00**
Ffarm Pencrug, Heol Cradoc, Aberhonddu, LD3 9PE

## Soiree Caws a Gwin
## Dem Rhydd Brycheiniog a Sir Faesyfed

Dewch i ymuno ag aelodau'r blaid leol yn y digwyddiad unigryw hwn.
Gellir prynu tocynnau ar y drws.

**Nos Sadwrn 19:30-Hwyr**
Neuadd y Gynhadledd

## Cinio'r Gynhadledd

Tim Farron AS, Llywydd Ffederal y Democratiaid Rhyddfrydol fydd ein siaradwr gwadd yng Nghinio'r Gynhadledd.

# Standing Orders

The sections of the Conference Standing Orders which relate to the conduct of the Meeting of Conference are available in this section.
Copies of the full Conference Standing Orders are available at the Registration Desk.

## F. Debates at Conference

### 1. Order and times for debates

1.1 Sessions of a meeting of Conference may not start before the scheduled time for the session published in the Final Agenda. It is the responsibility of the Session Chair(s) to ensure that Sessions keep to time.

1.2 During Policy Debate Sessions and Business Debate Sessions the motions will be considered in the order in which they appear in the Final Agenda. The Session Chair shall have discretion to vary the amount of time for each debate within a Session.

1.3 During Topical & Emergency Debate Sessions the motions will be considered in the order in which they appear in the Agenda Announcements and the Agenda Announcements Updates. The Chair shall have discretion to allocate the amount of time for each debate within a session.

1.4 During the Autumn Conference reports will be considered in the order in which they appear in the Final Agenda. The Chair shall have discretion to allocate the amount of time for consideration of each report within a session.

### 2. Procedure for each debate

2.1 No debate which requires a decision which is to be voted upon may begin unless there is a minimum of 20 Voting Members present in the Conference Hall at the start of the debate. Debates may continue however if the

number of Voting Members present in the Conference Hall falls below 20 during the debate with the exception of Motions to Amend the Constitution and Motions to Ratify Changes tot the Constitution which require a quorum of one half of the registered representatives in respect of the relevant meeting of the Conference (Clause M.2 of the Welsh Constitution).

2.2 The procedure for each debate on a Motion shall be

a) The moving of the Motion;

b) The moving of any Amendments to the motion, in the order in which they appear in the Agenda Announcements;

c) A General Debate;

d) The right of reply of the movers of any amendments (in the same order in which they were moved) (summations); and

e) The right of reply of the mover of the motion (summation).

2.3 The moving of a motion or amendment or the right of reply to either may be moved or replied to formally without a speech. This can be done only by the person nominated to speak at that point. If the mover of a motion or amendment chooses to formally move their motion or amendment, they may then be called in the General Debate provided that they are not the nominated person who are summating the motion or amendment.

**3. Speakers in a debate**

3.1 The mover of a motion or an amendment must be a Voting Member who has paid the requisite registration fee for that Meeting of the Conference and shall be nominated by the person or body named as having submitted the Motion or Amendment before the start of the Session.

3.2 The mover of a motion or an amendment shall either reply to the debate themselves or they may nominate another voting member to do so before the start of the debate.

3.3 The Chair shall decide who is called to speak in a general debate. The Chair shall only call Voting Members and non-voting members who have paid the requisite registration fee for that Meeting of the Conference and have completed a Speakers' Card. The Chair may call an Observer to speak in a debate if that person has made a written request to the Conference Committee in advance of the Session demonstrating that they have a particular and relevant expertise in the subject being debated and the Conference Committee have agreed to that request. The Chair shall also ensure that there is a balance to the debate between the different viewpoints at the Conference.

3.4 During the general debate the Chair must call, if they have been nominated in writing, before the start of the relevant Session:

a) a speaker nominated by the Policy committee to give the Policy Committee's views on any policy, topical or emergency motion;

b) A speaker nominated by the relevant Assembly or Parliamentary Group (dependent on whether the legislative competency is (in terms of Liberal Democrat Policy) with Parliament or the National Assembly for Wales) to give the Group's views on any policy, topical or emergency motion;

c) A speaker nominated by the relevant Party Committee to give their views on Business Motions.

3.5 The Chair may not call anyone to speak twice during a general debate, nor may they call the proposers of the Motion or any amendments unless they have formally

moved the motion or amendment and are not the designated person to make the summation speech, nor anyone nominated to reply to the motion during the general debate.

**4. Length of Speeches**

4.1 The length of time for speeches by proposers, summators and general speakers in a debate shall be published in the Final Agenda. These timings may be varied by Conference Committee and any such changes shall be published in Conference Announcements, save that a Session Chair may vary these timings based on the number of cards that have been received for a particular debate.

**5. Submitting a request to speak**

5.1 Members wishing to speak in a debate must submit a request to speak on an official Speakers Card submitted to the Speakers' Table in good time prior to the start of the debate.

5.2 Speakers' Cards must ask for the following information:

a) Speaker's Name;
b) Local Party;
c) Any Positions held in Party;
d) Any Elected positions held;
e) Whether they intend to speak for or against the motion and/or amendments; and
f) And other information which the Conference Committee deems necessary.

## G. Votes

### 1. When do votes take place?

1.1 At the end of each debate where a decision needs to be made Conference shall vote on the motion and any amendments before it.

### 2. Announcing the Conference's intention to vote

2.1 Before calling the last speaker in a debate the Chair shall announce that the voting on any amendments and/or the substantive motion shall take place in X minutes. X minutes shall be the time allotted for that speech.

### 3. Announcing the start of the vote

3.1 Once the announced time for voting has elapsed the Chair shall announce that Conference is going to vote and instruct that Voting Members be seated in order for their vote to be counted unless a voting Member is acting as a teller in the counting of votes and that the doors to the Conference Hall be closed. At this point no-one is permitted to enter the Conference Hall until voting is completed and the Chair instructs the doors to be re-opened.

### 4. Order of votes

4.1 The order of votes shall be:

a) Establishing if Conference is for or against accepting each amendment (if there are any amendments), in the order that the amendments were moved; and

b) Establishing if Conference is in favour or against the substantive motion as it stands after any amendments have been determined.

5. **Separate Votes**
   5.1 The Chair, in consultation with the Chair of Conference Committee, shall decide if a separate vote may be taken on a part of a motion or amendment.
   5.2 Any voting member may request a separate vote on a part of a motion or amendment provided that it is received by the Chair prior to the calling of the final speaker in a debate.

6. **Method of voting**
   6.1 Voting cards shall be issued at each Meeting of Conference to all voting members which shall form part of their Conference Accreditation. All votes shall be by show of such voting cards.

7. **Counting of Votes**
   7.1 The result of a vote shall be decided on the Chair's assessment of a show of voting cards unless a counted vote is:
   a) directed by the Session Chair or Conference Committee; or
   b) requested by 25 Voting Members present in the Conference Hall or by 20% of Voting Members submitted to the Session Chair before the calling of the final speaker in the debate.
   7.2 A recount may only be held at the discretion of the Chair and shall be a counted vote.

# Standing Orders

## H. Procedural Motions

**1. Types of Procedural Motions**

1.1 Move to Next Business
1.2 Reference Back
1.3 Suspension of Standing Orders
1.4 Exclusion of press and public

**2. Who can propose a procedural motion?**

2.1 The following can propose a procedural motion:

a) Any voting member who has not yet spoken during the debate at which the procedural motion is taken;

b) The nominee of a Party Committee given in writing to the Chair in advance of the moving of the motion.

**3. Proposing a procedural motion**

3.1 The proposal of a procedural motion must be made in writing to the Chair prior to the start of the summing up speeches. The proposal must:

a) not be more than 75 words;

b) explain the reasons for the procedural motion;

c) if a motion to Suspend Standing Orders, specify which part of Standing Orders are to be suspended; and

d) if a Suspension of Standing Orders or Exclusion of Press & Public, be clear about when the action proposed in the motion would come to an end.

**4. When to consider procedural motions**

4.1 Procedural motions should be considered:

a) Immediately after the moving of the motion it refers to if it is proposed before that time;

b) Immediately after the moving of all the amendments if it is proposed while the amendments are being proposed; and

c) Immediately after the speaker currently speaking, if it is proposed during the General Debate.

**5. Debating procedural motions**

5.1 The Chair shall read out the proposal for a procedural motion.

5.2 The procedural motion shall only be debated if a majority of voting members in the Conference Hall wish to debate it. This decision shall be taken by a vote without giving notice of the vote nor closing the doors.

5.3 The usual process for debate shall then take place for the procedural motion, save that the proposer of the motion under debate shall be the first to speak in the general debate and all speeches shall be limited to 2 minutes.

5.4 Speakers who wish to speak in the procedural motion debate may be permitted to speak in the full debate if they have not yet been called to speak in the debate and similarly if a Speaker has already spoken in the main debate this shall not preclude them from speaking during the procedural motion debate.

**6. Voting on Procedural Motions**

6.1 Voting on Procedural Motions shall follow the same format as voting on other motions.

**7. Outcomes of procedural motions**

7.1 If a procedural motion does not pass, the debate which was under way continues from the point it was interrupted.

# Standing Orders

7.2 If a Move to Next Business is passed the Chair shall immediately move to the next debate in the Session unless there are no more debates in the session. In that case, the Meeting of Conference shall adjourn until the scheduled start time for the next session unless that has already passed. In that case the next session shall start.

7.3 If a Reference Back is passed the Chair shall immediately move to the next debate in the Session unless there are no more debates in the session. In that case, the Meeting of Conference shall adjourn until the scheduled start time for the next debate unless that has already passed. In that case the next session shall start. After the Meeting of Conference the Conference Committee shall identify the relevant committee and requests that it acts upon the reference back. The relevant committee will report back on what action has been taken on the reference back at the next meeting of Conference.

7.4 If a Suspension of Standing Orders is passed the debate will continue with the relevant part of Standing Orders suspended.

7.5 If an Exclusion of press & public is passed all non-Party members present in the Conference Hall will be asked to leave and the doors closed. The debate will then continue from the point it was interrupted with only party members allowed to enter the Conference Hall.